# GRUFFYDD, THOMAS (1815 - 1887), un o delynorion enwocaf ei gyfnod

**Enw:** Thomas Gruffydd
**Dyddiad geni:** 1815
**Dyddiad marw:** 1887
**Plentyn:** Susannah Berrington Gruffydd Richards (née Gruffydd)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** un o delynorion enwocaf ei gyfnod
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Ray Looker

Ganwyd yn Llangynidr, sir Frycheiniog, yn w r i reithor y plwyf. Dysgwyd ef gan John Wood Jones, ac er iddo golli ei olwg yn ifanc nid amharodd hynny ar ei ddawn. Aeth yn delynor i deulu Llanofer, sir Fynwy; gweithiai wrth ei dyddyn yn ogystal â dal y swydd hon a chwarae'r delyn a chanu penillion ar hyd sir Fynwy a Morgannwg. Enillodd delyn deir-res eisteddfod y Fenni, 1836, a bu'n gydradd â Richard Mills, Llanidloes, ar gyfansoddi 'tôn yn ôl dull arferedig peroriaeth yn y Dywysogaeth.' Aeth gyda'i athro i chwarae yn Buckingham Palace yn 1843, a T. Price ('Carnhuanawc') gyda hwy. Chwaraeodd Gruffydd nifer o weithiau yn Marlborough House, Llundain, hefyd. Yn 1867 ymwelodd â Llydaw; arhosodd gyda'r Comte de la Villemarqué, g r a fedrai Gymraeg, ac anrhegwyd Gruffydd â modrwy i ddathlu ei arhosiad yno. Cyhoeddwyd ei gân, ' Gwlad y Bardd.' Bu farw 30 Awst 1887, yn ei gartref, T 'n-yr-eglwys, a chladdwyd ef ym mynwent yr eglwys yn Llanofer.

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Y Geninen*, 1888, 189

*Notable Welshmen (1700–1900)* (1908)


## Darllen Pellach

Amgueddfa Cymru: 53.48.1: Tunic worn by Thomas Gruffydd (1815-1887)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18577073

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/



Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu